NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Ymyriadau alcohol mewn addysg uwchradd ac addysg bellach

12 Awst 2019

## *Addysg am alcohol i blant a phobl ifanc*

Gall yfed alcohol fod yn beryglus ac yn niweidiol i blant a phobl ifanc. Rydym am i'r canllaw hwn helpu ysgolion a cholegau pan fyddant yn addysgu eu disgyblion am alcohol – am risgiau alcohol ac am yfed yn gyfrifol, yn enwedig pan fyddant dan oedran. Ei nod yw lleihau'r defnydd o alcohol a helpu'r rhai sy'n teimlo dan bwysau i yfed i beidio â dechrau, drwy sicrhau bod athrawon ac aelodau eraill o staff yn:

- gwybod sut i addasu addysg am alcohol i ddisgyblion o wahanol oedran a gallu, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau
- defnyddio'r dulliau gweithredu a'r deunyddiau addysgu mwyaf effeithiol
- deall eu cyfrifoldebau diogelu
- meithrin cysylltiadau da â gwasanaethau lleol eraill (fel gwasanaethau cyffuriau ac alcohol i bobl ifanc)
- gwybod sut i atgyfeirio disgyblion at gymorth arbenigol.

## *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Mae mwy o wybodaeth ar wefan y GIG am ddefnydd plant a phobl ifanc o alcohol.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chymorth i chi.

- Addaction, 020 7251 5860
- Alcohol Change UK, contact@alcoholchange.org.uk
- Elusen Body & Soul, 020 7923 6880

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

I rannu profiad o ofal rydych wedi'i gael, cysylltwch â'ch grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllaw hwn gyda phobl sydd wedi cael profiad o gefnogi plant a phobl ifanc sy'n defnyddio alcohol. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN 978-1-4731-3492-8



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.